ORIEL PENDEITSH, CAERNARFON

27 Mehefin – 31 Awst, 2014

Prosiect Pasport Llwybr Pererin Gogledd Cymru
The North Wales Pilgrim's Way Passport Project

Yn dilyn y Seintiau Celtaidd cynnar mae pererinion ers canrifoedd wedi cerdded llwybrau gogledd Cymru tuag at ynys sanctaidd Enlli. Mae'n anodd gwybod ble yn union oedd y llwybrau gwreiddiol ond heddiw gellid teithio ar Lwybr Pererin Gogledd Cymru sydd newydd ei sefydlu. Llwybr hirbell yw hwn yn rhedeg ar draws gogledd Cymru o Abaty Dinas Basing ger Treffynnon i Aberdaron gan basio trwy rai o'r golygfeydd harddaf yng Nghymru.

Mae'r arddangosfa yn Oriel Pendeitsh, Caernarfon yn arddangos printiau gan ddisgyblion o ysgolion cynradd ar hyd rhan Conwy a Gwynedd o'r Llwybr Pererin hwn. Gwaith a grëwyd dan arweiniad Eleri Jones, arlunydd preswyl Prosiect Pasport Llwybr Pererin yw'r lluniau. Mae pob llun a gaiff ei arddangos yn cynrychioli nodwedd o'r gwahanol gymunedau boed yn dirwedd, yn fywyd gwyllt neu'n adeilad megis yr eglwys leol. Bydd un o'r rhain yn cael ei ddewis i gynrychioli pob un o'r cymunedau hyn, a bydd y llun yn cael ei droi'n stamp printio bychan. Bydd y stampiau hyn yn cael eu stampio ar gerdyn pasport cerddwr i bobl sy'n teithio ar hyd y Llwybr Pererin ac yn gofnod o gwblhau pob cam o'r llwybr.

Yn yr arddangosfa gwelir hefyd ddetholiad bychan o hen brintiau, o gasgliad Gwasanaeth Archifau Gwynedd, o rai o'r eglwysi a fyddai yn gyrchfannau pwysig i'r pererinion ar eu taith.

Mae Oriel Pendeitsh ar agor yn ddyddiol 9.30 - 4.30
01286 676476 / 01286 679286

ORIEL PENDEITSH, CAERNARFON

27 June – 31 August, 2014

Prosiect Pasport Llwybr Pererin Gogledd Cymru
The North Wales Pilgrim's Way Passport Project

Following the early Celtic Saints, pilgrims have for centuries walked the pathways of north Wales towards the holy island of Bardsey. It is difficult to know where exactly the original paths lay but today it's possible to travel on a newly established North Wales Pilgrim's Way. This is a long distance footpath along north Wales from Basingwerk Abbey near Holywell to Aberdaron passing through some of the most beautiful scenery in Wales.

The exhibition at Oriel Pendeitsh, Caernarfon shows prints made by the pupils from primary schools along the Conwy and Gwynedd section of this Pilgrim's Way. The images displayed were created under the guidance of the Pilgrim's Way Passport Project resident artist Eleri Jones. Each image represents a feature of the different communities, be it the landscape, wildlife or a building such as the local church. One of these will be selected to represent each of these communities, and the image will be made into a small printing stamp. These stamps will be stamped onto a walker's passport card for people travelling the Pilgrim's Way and will serve as a record of completion of each stage of the path.

The exhibition also shows a small selection of old prints, from the Gwynedd Archives Service, of some of the churches that would have been important destinations for pilgrims on their journey.

Oriel Pendeitsh is open daily 9.30 - 4.30
01286 676476 / 01286 679286